| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd |
| **DYDDIAD** | 24 Medi 2013 |
| **TEITL** | Cyfrifon Terfynol y Cyd-Bwyllgor am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 ac Archwiliad perthnasol |
| **PWRPAS** | Cyflwyno –<br>• Ffurflen Swyddogol o'r Cyfrifon, ôl-Archwiliad<br>• "Llythyr" Swyddfa Archwilio Cymru |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn a nodi'r wybodaeth cyn awdurdodi'r Cadeirydd i ardystio'r Ffurflen. |
| **AWDUR** | Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd |

## 1. GOFYNION ADRODD ARIANNOL

Bydd aelodau yn cofio adroddwyd fel a ganlyn i'r cyfarfod 21 Mehefin 2013 o'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd:

1.1 Yn ystod 2012/13, daeth i'n sylw fod disgwyliadau adrodd ychwanegol ynghylch cyfrifo ac archwilio cyfrifon Cyd-Bwyllgorau.

1.2 Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn datgan fod Cyd-Bwyllgor o fwy nac un awdurdod (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 o'r Ddeddf yn mynnu bod cyrff o'r fath yn cadw cyfrifon sy'n destun archwiliad gan archwiliwr annibynnol wedi'i gymeradwyo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

1.3 Er nad yw'n endid cyfreithiol annibynnol, at ddibenion cadw cyfrifon a derbyn archwiliad, mae'r Cyd-Bwyllgor ei hun yn ddarostyngedig i'r un rheoliadau a chynghorau lleol eraill.

1.4 Cyngor Gwynedd yw'r Cyngor 'arweiniol' sy'n gyfrifol am gyflawni cyfrifoldebau cyfrifo ac adrodd ynglŷn â Phwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd.

1.5 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru)(Diwygio) 2010 yn mynnu bod pob Cyd-Bwyllgor yn paratoi cyfrifon blynyddol, h.y. cyfrif incwm a gwariant a mantolen.

1.6 Ystyrir y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd, oherwydd trosiant is na £1m, i fod yn "Is-Gyd-Bwyllgor".

1.7 Ar gyfer "Is-Gyd-Bwyllgor", rhaid cwblhau ffurflen swyddogol ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru, a bydd hwnnw yn destun archwiliad ar wahân, ond nid oes rhaid cynhyrchu datganiadau ariannol statudol llawn (sy'n cydymffurfio gyda Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol "IFRS").

1.8 Mae'r ffurflen yma wedi'i ddyfeisio gan Swyddfa Archwilio Cymru ac y mae'n llawer llai trafferthus (a rhatach) i'w gynhyrchu na fyddai datganiadau statudol llawn (fyddai yn ei dro yn mynnu adroddiad llawn gan Swyddfa Archwilio Cymru).

## 2. CYFRIFON 2012/13

Cyflwynwyd Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2012/13 i'r cyfarfod 21 Mehefin 2013 o'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar ffurf adroddiad "alldro" syml, ynghyd â'r ffurflen swyddogol am 2012/13 (cyn archwiliad).

## 3. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Cyflwynir yma hefyd y fersiwn terfynol o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd. Mae'r feriswn terfynol o'r Datganiad yn ymgorffori'r newidiadau i ran 6 a gafodd eu hamlygu gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar 21 Mehefin 2013.

## 4. ARCHWILIAD

Nodwyd ar y pryd byddai'r cyfrifon hyn yn destun archwiliad gan Swyddfa Archwilio Cymru, a cyflwynir yma lythyr gan yr Archwilydd Penodedig (Anthony Barrett) yn manylu ar ddarganfyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru.

## 5. CYFRIFON TERFYNOL 2012/13

Cyflwynir hefyd y fersiwn derfynol ôl-archwiliad o'r Ffurflen Swyddogol am 2012/13. nid oes unrhyw newidiadau o sylwedd ers y fersiwn cyn-archwiliad, ond fe welwch chi fod y ffurflen bellach wedi'i ardystio'n briodol.

## 6. ARGYMHELLIAD

**Gofynnir i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd dderbyn a nodi'r wybodaeth sy'n yr atodiadau,** sef -

- Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2012/13;
- Llythyr gan Swyddfa Archwilio Cymru;
- Ffurflen Swyddogol ar gyfer Cyfrifon ac Archwiliad 2012/13.

Gofynnir i Gadeirydd y cyfarfod ardystio'r ffurflen wedi i'r Cyd-Bwyllgor ystyried yr uchod.